# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 3 Ymchwiliad Covid-19 y DU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Medi 2026

---

Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ledled y DU

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair Gweinidogol | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| 1. Atal a rheoli heintiau | 6 |
| 2. Cyfyngiadau ar ymweliadau | 8 |
| 3. Capasiti ar gyfer profion ffitio | 10 |
| 4. Nodi unigolion sy’n wynebu risg uchel yn ystod pandemig | 11 |
| 5. Cynyddu capasiti ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng | 12 |
| 6. Capasiti ysbytai | 14 |
| 7. Dyrannu adnoddau gofal dwys | 16 |
| 8. Cofnodi a chyhoeddi marwolaethau gweithwyr gofal iechyd | 18 |
| 9. Proses safonedig ar gyfer cynllunio gofal ymlaen llaw ledled y DU | 20 |
| 10. Cymorth seicolegol ac emosiynol i weithwyr gofal iechyd | 22 |
| Tabl Camau Gweithredu | 24 |

# Rhagair Gweinidogol

Cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett DBE, Cadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU, ei thrydydd adroddiad a'i hargymhellion ddydd Iau, 19 Mawrth 2026. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â Modiwl 3, a archwiliodd effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd, cleifion a gweithwyr gofal iechyd ledled y Deyrnas Unedig. Ystyriodd hefyd ymateb y llywodraethau a chymdeithas i'r pandemig, gan gynnwys trefniadau llywodraethu gofal iechyd, gofal sylfaenol, ôl-groniadau'r GIG, rhaglenni brechu, a diagnosis a chymorth i'r rhai sy'n byw gyda Covid Hir.

Effeithiodd pandemig Covid-19 ar bob cymuned yng Nghymru, ac mae llawer o bobl yn parhau i fyw gyda'i ganlyniadau. Dechreuwn drwy gydymdeimlo'n ddiffuant â phawb a gollodd anwylyd yn ystod y pandemig. Rydym hefyd yn cynnig ein cydymdeimlad diffuant i bawb y cafodd eu hiechyd a'u llesiant eu niweidio. Ni all unrhyw eiriau ddadwneud poen a galar teuluoedd a ddioddefodd brofedigaeth, ac rydym yn cydnabod bod yr effaith yn parhau i lawer.

Rydym yn croesawu gwaith yr Ymchwiliad ac yn cydnabod pwysigrwydd ei ganfyddiadau i Gymru. Mae'n cynnig cyfle pwysig i wrando, myfyrio a dysgu o brofiadau'r rhai yr effeithiodd y pandemig arnynt. Fel Llywodraeth newydd Cymru, byddwn yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn mewn ffordd agored a gyda gofal a phenderfyniad clir i weithredu ar y gwersi a nodwyd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwersi hyn a ddysgwyd yn arwain at newid ymarferol, gan gryfhau parodrwydd, gwydnwch a hyder y cyhoedd, a lleihau'r risg y caiff camgymeriadau eu hailadrodd mewn unrhyw argyfwng iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gefnogodd ymateb Cymru i'r pandemig, gan gynnwys staff y GIG, gweithwyr gofal cymdeithasol, gwirfoddolwyr, gweision cyhoeddus a llawer o bobl eraill a gamodd ymlaen yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf heriol mewn hanes diweddar.

Rydym yn cydnabod y baich eithriadol a roddwyd ar y rhai sy'n darparu gofal a gwasanaethau cyhoeddus. Bu staff yn gweithio mewn amgylcheddau anghyfarwydd ac o dan bwysau mawr yn aml, gan wneud penderfyniadau anodd, ymdopi ag ansicrwydd, rheoli pryderon personol, a chefnogi pobl a theuluoedd drwy salwch, ynysigrwydd a cholled. Cafodd y cyfnod hwn effaith emosiynol a seicolegol ddofn ac, i lawer, mae'r effaith yn parhau i gael ei theimlo heddiw.

Rydym yn cydnabod y cyfraniad a wnaeth unigolion, ynghyd â'r aberthau personol y gwnaethant eu dioddef. Bydd eu dewrder, eu tosturi, eu hymroddiad a'u hymrwymiad diwyro i bobl Cymru yn parhau i fod yn un o nodweddion diffiniol yr ymateb i'r pandemig.

Mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn ddifrifol a rhaid eu hystyried yn ofalus. Maent yn tynnu sylw at wersi pwysig i bob llywodraeth a gwasanaeth cyhoeddus wrth baratoi ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Maent hefyd yn dangos y pwysau eithafol a roddwyd ar systemau gofal iechyd ledled y DU yn ystod y pandemig, a'r effaith sylweddol a gafodd hyn ar gleifion, eu teuluoedd a'r gweithlu.

Mae'r adroddiad yn dangos bod parodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol yn dibynnu ar gryfhau gwydnwch gwasanaethau iechyd a gofal, gan gynnwys capasiti'r GIG, gofal sylfaenol a chymunedol, a chamau gweithredu i leihau achosion sylfaenol afiechyd. Mae'r gwersi yn cynnwys yr angen i gefnogi'r gweithlu iechyd a gofal, sicrhau bod cyngor ar atal a rheoli heintiau yn adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, gwella'r defnydd o ddata a systemau digidol, cynnal capasiti ar draws gwasanaethau brys, gwasanaethau argyfwng a gwasanaethau ysbyty, a sicrhau nad yw pobl â chyflyrau hirdymor, anghenion iechyd meddwl a'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu gadael ar ôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn pwysigrwydd y gwersi hyn ac mae wedi ymrwymo i weithredu yn eu cylch. Mae'r ymateb hwn yn nodi beth sydd wedi newid, lle mae angen gwneud gwaith pellach, a sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod Cymru wedi'i pharatoi'n well ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau i wrando, dysgu a bod yn agored ynglŷn â chynnydd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Mabon ap Gwynfor AS**
Y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal

**Nerys Evans AS**
Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol

# Cyflwyniad

Mae polisi iechyd a pholisi iechyd y cyhoedd yn faterion datganoledig, sy'n golygu, yng Nghymru, caiff penderfyniadau am iechyd ac iechyd y cyhoedd eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gosod polisi cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru, penderfynu ar gyllid cyffredinol, gosod blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd a threfniadau atebolrwydd cyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Yn unol â hynny, bydd y broses o ddatblygu polisi a mesurau eraill i ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad yn digwydd yng nghyd-destun polisi Cymru a fframweithiau deddfwriaethol Cymru, wedi'i llywio gan ddyletswyddau a rhwymedigaethau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol, hawliau'r plentyn a llesiant.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r deg argymhelliad ar gyfer Modiwl 3 a wnaed gan yr Ymchwiliad, ochr yn ochr â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i gryfhau parodrwydd, gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal, a sicrhau bod Cymru wedi'i pharatoi'n well ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Darperir cerrig milltir cyflawni yn adran Tabl Camau Gweithredu'r ymateb hwn.

Rydym wedi gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatblygu'r ymateb hwn a chytuno ar sut y bydd yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Ein huchelgais yw nid yn unig dysgu o'r hyn a brofwyd yn ystod y pandemig a chryfhau gwydnwch gwasanaethau iechyd a gofal ond, yn y pen draw, wella iechyd, profiadau a chanlyniadau pobl Cymru drwy ofal mwy ymatebol a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu diweddariadau cynnydd yn erbyn argymhellion y modiwl i'r Ymchwiliad bob chwe mis, ym mis Mai a mis Tachwedd. Bydd y diweddariad cyntaf ar y modiwl hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad mis Mai 2027.

# 1. Atal a rheoli heintiau

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau ar atal a rheoli heintiau yn seiliedig ar strwythurau clir a dull pwyllog o ymdrin â'r risg o drosglwyddo**

Rhaid i lywodraeth y DU sicrhau bod corff (sy'n cyfateb i Gell Atal a Rheoli Heintiau'r DU) ar waith yn barod i gael ei gynnull ar ddechrau unrhyw bandemig yn y dyfodol, er mwyn ystyried a drafftio canllawiau atal a rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau gofal iechyd. Rhaid i'r corff hwn:

- gael llinellau cyfrifoldeb clir a rôl a chylch gwaith clir, wedi'u diffinio ymlaen llaw yn ystod pandemig
- cynnwys aelodaeth amlddisgyblaethol, gan gynnwys arbenigwyr ym maes gwyddoniaeth trosglwyddo feirysol yn ogystal â'r rhai sydd ag arbenigedd clinigol
- sicrhau bod ei ganllawiau'n ystyried risg pob llwybr trosglwyddo tebygol nes bod digon o dystiolaeth yn dod i'r amlwg i ddiystyru llwybrau penodol
- sicrhau bod y canllawiau'n esbonio'r rhesymeg sylfaenol dros y rhagofalon a argymhellir yn glir.

Ar wahân i hyn, dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cenedlaethol GIG yr Alban, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (Gogledd Iwerddon) adolygu'r llawlyfrau atal a rheoli heintiau cenedlaethol ac unrhyw ganllawiau yn y dyfodol i sicrhau nad yw'r dull o nodi'r risg o drosglwyddo wedi'i gyfyngu i weithdrefnau penodol yn unig. Dylid rhoi pwyslais ar gyfuniad o ffactorau risg, megis cyfraddau trosglwyddadwyedd, yr amgylchedd, y lleoliad a'r weithdrefn.

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, mewn unrhyw argyfwng neu bandemig yn y dyfodol, fod yn rhaid i benderfyniadau ynghylch atal a rheoli heintiau fod yn seiliedig ar gyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau clir, cyngor arbenigol, a dull pwyllog o ymdrin â risg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod, mewn pandemig yn y dyfodol, y dylai canllawiau ystyried pob ffordd bosibl y gallai haint ledaenu nes bod digon o dystiolaeth i ddiystyru unrhyw un ohonynt.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan mewn rhaglen waith ledled y DU i adolygu trefniadau atal a rheoli heintiau presennol y DU. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod gan strwythurau cynghori ar bandemig yn y dyfodol rolau clir, eu bod yn atebol, ac yn cynnwys yr ystod gywir o gyngor arbenigol.

1.3 Yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn y dyfodol yn ystyried ansicrwydd ar ddechrau brigiad newydd o achosion o glefyd heintus sy'n dod i'r amlwg a byddwn yn ystyried pob ffordd bosibl y gallai haint ledaenu nes bod y dystiolaeth yn dod yn gliriach. Bydd canllawiau hefyd yn esbonio pam mae rhagofalon penodol yn cael eu hargymell, fel y gellir eu cymhwyso'n gyson ar draws lleoliadau iechyd a gofal.

1.4 Mae Cymru wedi mabwysiadu'r *Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol*, a ddatblygwyd gan GIG yr Alban. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y DU i adolygu canllawiau fel bod asesiadau yn y dyfodol o'r risg o drosglwyddo yn ystyried y cyd-destun ehangach, gan gynnwys pa mor hawdd y mae'r haint yn lledaenu, yr amgylchedd, y math o leoliad gofal a'r gofal sy'n cael ei ddarparu.

1.5 Ochr yn ochr â gwaith y pedair gwlad, mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau arweinyddiaeth genedlaethol, a'r prosesau goruchwylio ar gyfer atal a rheoli heintiau yng Nghymru. Mae'r **Datganiad Ansawdd ar Atal a Rheoli Heintiau** a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi sut y dylid gwella prosesau atal a rheoli heintiau ar draws lleoliadau iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n cefnogi dull ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o leihau niwed y gellir ei osgoi a gwella canlyniadau iechyd. Mae hefyd yn cefnogi'r dull ataliol hirdymor a nodir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

1.6 Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r *Cod Ymarfer ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd* yn cefnogi'r broses o roi'r safonau ansawdd ar waith; mae'n nodi'r safonau sylfaenol ar gyfer atal a rheoli heintiau y disgwylir i sefydliadau'r GIG yng Nghymru eu cyrraedd. Disgwylir i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, fel rhan o'r cod ymarfer, gwblhau dadansoddiad o'r bylchau yn erbyn y Datganiad Ansawdd ar Atal a Rheoli Heintiau. Bydd angen i sefydliadau'r GIG yng Nghymru ddangos i gleifion, staff ac ymwelwyr eu bod yn cyrraedd y safonau hyn. Bydd eu cynnydd yn parhau i gael ei wirio drwy drefniadau sicrwydd lleol, a bydd Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn goruchwylio'r broses.

1.7 Er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd a gwell prosesau goruchwylio, bydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn penodi Cyfarwyddwr Atal a Rheoli Heintiau erbyn haf 2027, gyda threfniadau adrodd gweithredol clir. Bydd fframwaith sicrwydd Cymru gyfan hefyd yn cael ei ddatblygu i helpu sefydliadau i wirio a ydynt yn bodloni gofynion atal a rheoli heintiau, nodi lle mae angen gwella, a chefnogi trefniadau goruchwylio gan fyrddau llywodraethu.

# 2. Cyfyngiadau ar ymweliadau

**Argymhelliad 2: Canllawiau ar gyfer cyfyngiadau ar ymweliadau**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyhoeddi canllawiau ar gyfer rhoi cyfyngiadau ar ymweliadau ar waith mewn ysbytai pe bai pandemig yn y dyfodol. Dylai'r canllawiau nodi'r amgylchiadau lle dylid cyflwyno cyfyngiadau ar ymweliadau, eu tynhau, eu llacio a'u dileu, ochr yn ochr â'r mesurau a'r esemptiadau ar bob lefel. Dylai'r canllawiau gael eu harwain gan yr egwyddorion craidd canlynol:

- Dylid rhoi'r mesurau lleiaf cyfyngedig posibl ar waith, a hynny o ran difrifoldeb ac am ba hyd y byddant yn gymwys.
- Dylid penderfynu ar gyfyngiadau a'u rhoi ar waith ar y lefel fwyaf lleol.
- Oni bai bod cyfyngiadau'n cael eu rhoi ar waith ar lefel benodol, dylai ymddiriedolaethau a byrddau iechyd wneud penderfyniadau ynghylch difrifoldeb cyfyngiadau yn seiliedig ar asesiadau risg lleol.
- Rhaid i ddeunyddiau cyfathrebu â'r cyhoedd esbonio'r mesurau sydd ar waith yn glir a'r rhesymau pam mae'r cyfyngiadau'n berthnasol.

Dylid adolygu'r canllawiau bob tair blynedd yn unol ag Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (Argymhelliad 4).

2.1 Mae canllawiau ar ymweliadau yn gyfrifoldeb datganoledig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig i ddatblygu egwyddorion cyffredin lle bydd hynny'n ddefnyddiol.

2.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau yn y dyfodol yn ystyried hawliau, llesiant ac anghenion gofal pobl, gan gadw pobl yn ddiogel rhag heintiau hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Ymchwiliad y dylai unrhyw gyfyngiadau ar ymweliadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, amgylchiadau lleol a risg, ac y dylid eu hadolygu'n rheolaidd a pharhau i'w rhoi ar waith am gyhyd ag sydd eu hangen yn unig.

2.3 Yng Nghymru, byddwn yn adeiladu ar ganllawiau presennol ar ymweliadau a'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig i ddatblygu dull cenedlaethol cliriach sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cyson, gan ganiatáu ar yr un pryd i benderfyniadau adlewyrchu amgylchiadau lleol, y pwysau ar wasanaethau a lefelau risg.

2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall pobl sydd â phrofiad bywyd ei wneud at ddatblygu polisi a chanllawiau yn y dyfodol. Wrth inni ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer y dyfodol, byddwn yn mynd ati i geisio cyfleoedd i ymgysylltu â chleifion, teuluoedd, gofalwyr a sefydliadau cynrychiadol, gan gynnwys drwy Llais, y corff statudol annibynnol a sefydlwyd i sicrhau bod lleisiau pobl ledled Cymru yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

2.5 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod profiadau, safbwyntiau a gwybodaeth y rhai y mae cyfyngiadau ar ymweliadau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn cael eu clywed a'u hystyried mewn ffordd ystyrlon. Drwy weithgarwch ymgysylltu a chydgynhyrchu parhaus, bydd y profiadau hyn yn helpu i lywio, llunio a chryfhau polisi, canllawiau a phrosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, gan sicrhau bod ein dull yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

2.6 Bydd y dull yn y dyfodol yn cael ei arwain gan yr egwyddor bod mynediad at aelodau o'r teulu, gofalwyr a'r rhai sy'n darparu cymorth hanfodol yn parhau, lle bynnag y bo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. I lawer o bobl, nid mantais gymdeithasol yn unig yw'r cydberthnasau hyn, ond elfen hanfodol o ofal tosturiol, diogel ac effeithiol. Rhoddir ystyriaeth arbennig i unigolion y gallai cyfyngiadau ar gyswllt gael mwy o effaith arnynt oherwydd eu bod yn dibynnu ar gymorth aelodau o'r teulu, gofalwyr neu eiriolwyr i gynnal eu llesiant, eu gallu i gyfathrebu, eu dealltwriaeth, eu gallu i ymgyfarwyddo â sefyllfaoedd, eu gallu i wneud penderfyniadau neu ymgysylltu â gofal. Gall hyn gynnwys pobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes, yn ogystal â'r rhai sydd ag anghenion gwybyddol, anghenion cyfathrebu neu anghenion gofal sylweddol sy'n golygu bod presenoldeb unigolyn dibynadwy yn rhan bwysig o'u gofal a'u cymorth. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y GIG yng Nghymru, ond eu bod hefyd yn cael eu hystyried mewn lleoliadau gofal, gan gydnabod bod pobl yn cael gofal ar draws ffiniau sefydliadol.

2.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai o wledydd y DU wedi cyflwyno dulliau deddfwriaethol o gefnogi hawliau a chyfrifoldebau ymweld, neu'n ystyried gwneud hynny. Yng Nghymru, ein blaenoriaeth yw sefydlu set glir o egwyddorion a dull cenedlaethol sy'n cefnogi penderfyniadau cyson, tosturiol a chymesur yn ystod argyfyngau iechyd y cyhoedd neu bandemigau yn y dyfodol.

2.8 Bydd y gwaith hwn yn cefnogi dull o ymdrin ag ymweliadau yn ystod pandemigau yn y dyfodol sy'n dosturiol, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ar yr un pryd helpu i amddiffyn iechyd y cyhoedd a chadw cleifion, staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

# 3. Capasiti ar gyfer profion ffitio

**Argymhelliad 3: Paratoi'n well ar gyfer profion ffitio**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio gyda chyflogwyr, gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, i adolygu argaeledd swyddogion profion ffitio cymwysedig a chymryd camau i gynyddu nifer y swyddogion profion ffitio yn unol â hynny. Dylid adolygu argaeledd bob tair blynedd yn unol ag Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (Argymhelliad 4).

Dylai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon ddiweddaru eu canllawiau i gyflogwyr er mwyn pwysleisio'r angen i sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i gynnal profion ffitio.

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod digon o swyddogion profion ffitio hyfforddedig a masgiau amddiffynnol addas ar gael fel rhan o waith cynllunio o ddydd i ddydd a pharatoadau ar gyfer argyfyngau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gryfhau diogelwch y gweithlu yn y maes hwn.

3.2 Dangosodd pandemig Covid-19 pa mor bwysig yw hi bod profion ffitio, swyddogion profion ffitio hyfforddedig a masgiau amddiffynnol addas y gellir dibynnu arnynt ar gael i staff. Mae hyn yn berthnasol ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydliadau'r GIG, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol i oedolion, cartrefi gofal a lleoliadau eraill lle gall fod angen i staff ddefnyddio cyfarpar diogelu anadlol.

3.3 Un flaenoriaeth graidd yw sicrhau bod gwydnwch profion ffitio Cyfarpar Diogelu Anadlol (RPE) ac anadlyddion FFP (FFP3) yn cael ei gynnal ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o drefniadau busnes fel arfer a chynlluniau parodrwydd am argyfwng. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i asesu galluoedd a gofynion y profion ffitio presennol.

3.4 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid ledled y DU i ddatblygu fframwaith heriau mewn perthynas â chyfarpar diogelu anadlol. Mae'r fframwaith yn nodi heriau allweddol ac yn cynnig dull cenedlaethol o gryfhau cydymffurfiaeth a gwella pa mor dda y mae systemau'n paratoi ar gyfer argyfyngau, yn ymdopi â nhw ac yn adfer ar eu hôl. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer clefydau heintus difrifol, cynllunio ar gyfer cyfnodau o alw mawr, a gwneud profion ffitio yn rhan o ymarfer arferol.

3.5 Bydd y fframwaith yn helpu sefydliadau ledled Cymru i gynnal asesiadau risg i reoli heintiau anadlol feirysol tymhorol, gan gynnwys y ffliw, Covid-19 a mathau eraill o salwch sy'n lledaenu drwy ronynnau heintus yn yr aer.

3.6 Felly, bydd rhoi'r fframwaith ar waith yn cefnogi dull cydgysylltiedig, ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, darparwyr cartrefi gofal a darparwyr gofal cartref.

# 4. Nodi unigolion sy'n wynebu risg uchel yn ystod pandemig

**Argymhelliad 4: Gwella systemau data er mwyn nodi unigolion sy'n wynebu risg uchel yn ystod pandemig**

Rhaid i lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sicrhau bod gan systemau data iechyd a systemau digidol y gallu i nodi unigolion sy'n wynebu risg uchel o forbidrwydd neu farwolaeth o glefyd pandemig yn gyflym ac yn gywir mewn pandemig yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys camau gweithredu i wella systemau data iechyd a chadw cofnodion cleifion drwy wneud y canlynol:

- gwella data cleifion drwy alluogi codio diagnostig mwy manwl
- sicrhau bod cofnodion gofal yn gydnaws ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd
- galluogi prosesau rhannu a chysylltu data diogel ar draws setiau data a systemau iechyd lluosog ar gyfer nodi unigolion sy'n wynebu risg uchel.

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gall data iechyd a systemau digidol nodi pobl a all wynebu risg uwch o salwch difrifol neu farwolaeth yn ystod pandemig yn y dyfodol yn gyflym ac yn gywir. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, heb wybod union natur unrhyw argyfwng iechyd neu bandemig yn y dyfodol, ei bod yn amhosibl gwarantu y byddai systemau data yn nodi pawb sy'n wynebu risg uchel o dan yr holl amgylchiadau.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella systemau digidol ar draws y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau gwell rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, cofnodion cleifion mwy cyson, a ffyrdd mwy diogel o rannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau iechyd. Mae gwaith wedi dechrau ar Strategaeth Digidol a Data wedi'i hadnewyddu ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd yn nodi cyfeiriad hirdymor ar gyfer gwella gwasanaethau digidol a gwneud defnydd gwell o ddata. Bydd y gwaith yn cael ei wneud fesul cam a'i flaenoriaethu'n ofalus yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i wella sut y gellir rhannu data iechyd yn ddiogel a'u defnyddio'n briodol. Mae Grŵp Defnyddio a Rhannu Data wedi'i sefydlu i ystyried lle gallai prosesau rhannu data gwell gefnogi gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys nodi pobl a all wynebu risg uwch yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd neu bandemig a gwella cysylltiadau rhwng data iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y grŵp hwn yn gwneud argymhellion ynghylch meysydd polisi a meysydd deddfwriaethol i gefnogi prosesau rhannu data gwell.

4.4 Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wneud cofnodion iechyd yn fwy manwl a chyson ledled Cymru. Drwy fabwysiadu *Safonau Codio Clinigol Cenedlaethol — 'Unwaith dros Gymru'* mewn perthynas â chysondeb data, mae Cymru wedi sefydlu safonau codio safonedig ar draws pob lleoliad gofal. Mae hyn yn golygu y gall cofnodion cleifion gofnodi diagnosisau a ffactorau risg yn fwy cyson, gan helpu clinigwyr a thimau iechyd y cyhoedd i nodi pobl a all wynebu risg uwch.

4.5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn cefnogi gofal diogel, effeithiol a chydgysylltiedig i gleifion. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r trefniadau presennol a'n sefyllfa ddeddfwriaethol, dysgu o ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU a gweithio gyda Llywodraeth y DU ar faterion sydd o ddiddordeb a rennir. Rhaid i unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol gynnal mesurau diogelu priodol ar gyfer cyfrinachedd cleifion, gan ar yr un pryd ddarparu gwasanaethau â fframweithiau cyfreithiol clir ar gyfer rhannu gwybodaeth lle bo angen a lle y bo'n briodol.

4.6 Byddwn yn darparu diweddariad manylach ar yr argymhelliad hwn ym mis Mai 2027 unwaith y bydd y gwaith ar y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru wedi cael amser i ddatblygu.

# 5. Cynyddu capasiti ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng

**Argymhelliad 5: Paratoi i gynyddu capasiti ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ar y cyd â sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau, gynllunio ar gyfer capasiti ymchwydd mewn gofal brys a gofal argyfwng yn ystod pandemig.

Rhaid i gynlluniau sicrhau bod digon o gapasiti ymhlith y gweithlu a'r gallu i gynyddu capasiti yn sydyn, gan gynnwys nifer a math y staff sydd eu hangen, prosesau recriwtio a darparu hyfforddiant.

Dylid cwblhau hyn fel rhan o'r strategaeth argyfwng sifil system gyfan a argymhellwyd yn Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (Argymhelliad 4). Dylid cyhoeddi cynlluniau a'u hadolygu bob tair blynedd.

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Ymchwiliad fod yn rhaid i wasanaethau gofal brys a gofal argyfwng allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i alw cynyddol yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd neu bandemig yn y dyfodol.

5.2 Mae'r gallu i gynyddu gofal brys a gofal argyfwng yn dibynnu ar lawer o rannau o'r system iechyd a gofal yn cydweithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys gofal sylfaenol a chymunedol, GIG 111 Cymru, gwasanaethau ambiwlans, adrannau brys, llif ysbytai, a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

5.3 Ers y pandemig, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gryfhau gofal brys a gofal argyfwng yng Nghymru. Rhan allweddol o hyn fu cyflwyno'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng — polisi a rhaglen (2021-2026). Cynlluniwyd y chwe Nod i symud y system o ofal adweithiol, sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty, i fodel rhagweithiol, system gyfan — gan wella gwydnwch drwy fynd i'r afael â'r galw, llif cleifion a chanlyniadau ar draws y llwybr cyfan. Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar wella mynediad, lleihau nifer yr achosion lle mae pobl yn mynd i'r ysbyty lle gellid osgoi hynny, cefnogi ymateb cyflym yn y gymuned, mynediad at ofal yn yr ysbyty pan fo angen a galluogi pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel ac yn brydlon pan fyddant yn gallu gwneud hynny.

5.4 Mae eisoes yn ofynnol i sefydliadau'r GIG yng Nghymru ddatblygu cynlluniau blynyddol i baratoi ar gyfer cyfnodau pan ddisgwylir i'r galw gynyddu, fel y gaeaf a chyfnodau o bwysau eithafol.

5.5 Ar gyfer gaeaf 2026/27, mae'r gwaith cynllunio wedi dechrau. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod sefydliadau'n barod, bod cyfrifoldebau'n glir, a bod cynlluniau'n cael eu profi yn erbyn gwahanol lefelau o alw. Bydd dull y GIG yng Nghymru o gynllunio ar gyfer y gaeaf, a chynllunio ar gyfer ymchwydd mewn gofal brys a gofal argyfwng, yn cael ei adolygu a'i gryfhau bob blwyddyn.

5.6 Bydd y cynlluniau ar gyfer gaeaf 2026/27 yn seiliedig ar ddwy senario o ran galw: y lefel fwyaf tebygol o alw a senario lle ceir pwysau eithafol. Bwriad y dull gweithredu hwn yw helpu sefydliadau i gynllunio'n gyson ledled Cymru a dangos pa gamau y byddent yn eu cymryd pe bai'r pwysau ar wasanaethau'n cynyddu. Disgwylir i fyrddau iechyd gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf.

5.7 Yn fwy cyffredinol, bydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn symud o'r model cynllunio traddodiadol hwn sy'n canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf i gynllunio drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau newidiol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys tonnau gwres, oerfel difrifol ac effeithiau amgylcheddol ehangach yn hytrach nag un uchafbwynt rhagweladwy yn y gaeaf.

5.8 Bydd y dull hwn yn helpu sefydliadau a gwasanaethau ar draws y GIG yng Nghymru i ddeall pwysau mewn amser real ac ymateb yn fwy hyblyg pan fydd y galw'n cynyddu neu pan fydd rhywbeth yn tarfu ar wasanaethau. Bydd y dull hwn o gynllunio drwy'r flwyddyn yn ystyried capasiti gwelyau ac argaeledd y gweithlu ac yn cefnogi dealltwriaeth fwy realistig o fregusrwydd y system, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar atal, a chynnal gofal diogel i gleifion drwy gydol y flwyddyn.

5.9 Gan fod cysylltiad agos rhwng cynllunio ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng a gwaith cynllunio capasiti ysbytai yn ehangach, argymhellir bod yr ymateb i'r argymhelliad hwn yn cael ei ddarllen ochr yn ochr â'r ymateb i argymhelliad 6.

# 6. Capasiti ysbytai

**Argymhelliad 6: Paratoi i gynyddu capasiti ysbytai a phrofi'r gallu i wneud hyn**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio gydag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd i sicrhau bod cynlluniau pandemig yn cynnwys camau ymarferol i gynyddu capasiti ysbytai yn gyflym i drin cleifion sy'n ddifrifol wael. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau gofal critigol a all ddarparu sawl lefel a math o gymorth organau. Dylai hefyd gwmpasu'r cyfarpar, y cyflenwadau, y lle a'r staff angenrheidiol, gan gynnwys trefniadau adleoli a hyfforddiant.

Rhaid i bob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd gadw cofnod cyfredol a hygyrch o'r wybodaeth sydd ei hangen i roi'r cynlluniau hyn ar waith ar safleoedd yr ysbytai y maent yn eu gweithredu. Dylai hyn gynnwys agweddau technegol ar ehangu gofal critigol megis pŵer, systemau awyru, ocsigen a systemau rheoli gwastraff.

Dylid cyhoeddi cynlluniau ar gyfer ehangu capasiti, eu hadolygu bob tair blynedd a'u profi fel rhan o'r ymarferion ymateb i bandemig a argymhellwyd yn Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (Argymhelliad 6).

6.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Ymchwiliad ei bod hi'n bwysig bod ysbytai'n gallu cynyddu capasiti'n gyflym pan fo angen, a'u bod yn barod i wneud hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y trefniadau a sefydlwyd yn ystod pandemig Covid-19, ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd ers hynny i wella gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

6.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad dim ond nifer y gwelyau sydd ar gael sy'n bwysig o ran capasiti ysbytai. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod staff hyfforddedig, cyfarpar, meddyginiaethau, cyflenwadau, mannau addas, ocsigen a system awyru, systemau digidol, mesurau atal a rheoli heintiau a'r gallu i gynnal gwasanaethau hanfodol.

6.3 Mae gan y GIG yng Nghymru ganllawiau cenedlaethol eisoes i roi arweiniad i fyrddau iechyd wrth gynyddu capasiti gofal critigol yn ystod cynnydd sydyn mewn galw. Diweddarwyd Canllawiau Uwchgyfeirio Gofal Critigol Cymru Gyfan ar gyfer Rheoli Cynnydd Mawr mewn Galw heb ei Gynllunio yn 2023 i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o bandemig Covid-19. Maent yn gofyn i fyrddau iechyd gynllunio ar gyfer mwy o gapasiti gofal critigol ar gyfer oedolion, plant a babanod (newydd-anedig), gyda chapasiti'n cynnwys staff hyfforddedig, gwelyau a chyfarpar.

6.4 Mae trefniadau cyd-gymorth hefyd ar waith rhwng byrddau iechyd yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr fel y gallant gefnogi ei gilydd pan fydd gwasanaethau dan bwysau.

6.5 Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd adolygu cynlluniau capasiti gofal critigol a chynlluniau ymchwydd lleol o leiaf unwaith y flwyddyn a sicrhau bod uwch-swyddogion gweithredol wedi eu cymeradwyo. Mae hyn yn helpu'r GIG yng Nghymru i ddysgu a gwella, sicrhau bod sefydliadau'n barod, a rhoi sicrwydd y gall gwasanaethau ymateb i bandemig neu argyfwng mawr arall yn y dyfodol.

6.6 Profwyd y gallu i gynyddu capasiti gofal critigol i oedolion yn 2024, a phrofwyd y gallu i gynyddu capasiti gofal critigol i blant yn 2025 fel rhan o Ymarfer Pegasus. Rhoddodd Ymarfer Pegasus gyfle i brofi rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer capasiti ehangach pe bai pandemig hefyd, gan gynnwys capasiti i ddelio â chlefyd heintus hynod drosglwyddadwy a chapasiti cyffredinol ysbytai.

6.7 Arweiniodd brigiadau diweddar o achosion iechyd y cyhoedd, gan gynnwys brech M yn 2025 a Hantafeirws yn 2026 at adolygiad o'r llwybrau clinigol a chardiau gweithredu hefyd. Dogfennau yw'r rhain sy'n helpu staff i wybod beth i'w wneud yn ystod brigiad o achosion o heintiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. O ganlyniad, ailbrofodd y GIG yng Nghymru ei allu i ofalu am gleifion â chlefydau heintus difrifol. Mae asesiad parodrwydd hefyd wedi'i gomisiynu a bydd yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

6.8 Bydd cam nesaf y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau i gynyddu capasiti cyffredinol ysbytai. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ar sail 'pob bygythiad', sy'n golygu eu bod yn barod i ymateb i ystod o risgiau a senarios, gan gynnwys pandemigau yn y dyfodol.

6.9 Dosberthir canllawiau i sefydliadau'r GIG yng Nghymru i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer ymchwyddiadau. Bydd hyn yn cydnabod bod yn rhaid i waith cynllunio i gynyddu capasiti yn gyflym gael ei gefnogi gan gynlluniau gweithlu ategol.

6.10 Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys adolygu a diweddaru'r Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol. Mae'r Fframwaith hwn yn rhoi canllawiau i sefydliadau ynghylch pa wasanaethau y mae'n rhaid iddynt barhau wrth ymateb i argyfwng fel pandemig.

# 7. Dyrannu adnoddau gofal dwys

**Argymhelliad 7: Fframwaith i arwain y broses o ddyrannu adnoddau gofal dwys mewn achos eithafol o orlawnder**

Dylai llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyhoeddi fframwaith i'r DU gyfan sy'n nodi egwyddorion moesegol a gweithredol i arwain y broses o ddyrannu adnoddau gofal dwys i oedolion o dan yr amgylchiadau eithafol lle bydd cyfleusterau o'r fath yn orlawn yn ystod pandemig.

Rhaid i'r fframwaith hwnnw:

- gael ei lywio gan weithgarwch ymgysylltu cynhwysfawr â'r cyhoedd a'i ddatblygu ar y cyd â gweithwyr proffesiynol ym meysydd gofal iechyd, y gyfraith a moeseg, yn ogystal â rheoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol;
- nodi sbardunau sefydledig clir ar gyfer ei ddefnyddio, yn seiliedig yn rhannol o leiaf ar system i'r DU gyfan sy'n mesur straen ar gapasiti gofal critigol ac yn hwyluso cyd-gymorth (megis yr adnodd CRITCON a ddefnyddir yn Lloegr);
- sefydlu dyletswyddau cyfreithiol a phroffesiynol clinigwyr wrth gymhwyso'r fframwaith, y dylid eu hesbonio'n glir i glinigwyr drwy ganllawiau
- chael ei adolygu'n rheolaidd gan gyfeirio at ddata cyfoes am gleifion yn ystod pandemig, a rhaid gwerthuso unrhyw ddefnydd ohono yn y dyfodol ac adrodd arno'n gyhoeddus.

Dylid cyhoeddi cynllun ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn o fewn chwe mis i'r Adroddiad hwn.

Dylid profi'r ffordd y caiff y fframwaith ei gymhwyso fel rhan o'r ymarferion ymateb i bandemig a argymhellwyd yn Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad (Argymhelliad 6).

7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cael egwyddorion moesegol a gweithredol clir i arwain prosesau gwneud penderfyniadau yn y sefyllfa eithafol lle y bydd gwasanaethau gofal dwys i oedolion yn gorlenwi yn ystod pandemig. Byddai angen i unrhyw fframwaith gefnogi clinigwyr, diogelu hawliau cleifion, hyrwyddo penderfyniadau teg a chyson a chynnal hyder y cyhoedd.

7.2 Ar ddechrau pandemig Covid-19, defnyddiodd y GIG yng Nghymru *Ganllawiau Uwchgyfeirio Gofal Critigol Cymru Gyfan 2017*. Roedd y canllawiau hyn yn nodi sut y dylai unedau gofal dwys ymateb i bwysau cynyddol. Fodd bynnag, nid oeddent yn nodi sut y dylid gwneud penderfyniadau pe bai'r galw'n fwy na'r adnoddau gofal dwys a oedd ar gael.

7.3 Yn ystod ton gyntaf y pandemig, awgrymodd gwaith modelu y gallai'r galw am ofal critigol yng Nghymru fod yn fwy na'r capasiti a oedd ar gael, hyd yn oed ar ôl rhoi trefniadau ychwanegol ar waith. Helpodd hyn i lywio'r broses o gyflwyno ymyriadau anfferyllol megis mesurau cadw pellter cymdeithasol i leihau trosglwyddiadau, derbyniadau i'r ysbyty a phwysau ar wasanaethau gofal critigol. Roedd yr ymyriadau hyn yn effeithiol ac, o ganlyniad, gostyngodd y galw ac awgrymodd gwaith modelu diweddarach ei bod yn annhebygol y byddai gwasanaethau gofal dwys yn gorlenwi. Gohiriwyd y gwaith a oedd wedi dechrau i arwain camau i ddyrannu adnoddau gofal critigol ar gyfer yr amgylchiadau mwyaf eithafol. Atgyfnerthodd profiad dros donnau diweddarach y pandemig y safbwynt hwn, gan ddangos y gallai ymyriadau cenedlaethol reoli trosglwyddiadau yn effeithiol wrth i fyrddau iechyd gynyddu capasiti gofal critigol.

7.4 Yn 2023, diweddarwyd *Canllawiau Uwchgyfeirio Gofal Critigol Cymru Gyfan* er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig. Nod y canllawiau diwygiedig yw osgoi'r angen i frysbennu yn seiliedig ar adnoddau. Mae hyn yn cyfeirio at ddyrannu neu atal triniaeth gofal critigol yn bennaf oherwydd prinder gwelyau, staff, cyfarpar neu adnoddau gofal iechyd eraill, yn hytrach nag yn ôl angen clinigol claf neu fudd disgwyliedig y driniaeth. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o Ganllawiau Uwchgyfeirio Gofal Critigol Cymru Gyfan yn ceisio osgoi'r angen am frysbennu yn seiliedig ar adnoddau yn y ffordd hon drwy gryfhau prosesau uwchgyfeirio, trefniadau cyd-gymorth a chapasiti ymchwydd, gan alluogi cleifion i barhau i gael blaenoriaeth yn seiliedig ar angen clinigol lle bynnag y bo modd.  Mae hefyd yn cynnwys diffiniad cliriach o lefelau pwysau gofal critigol, a elwir yn 'CRITCON'.

7.5 Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â chynghorwyr y GIG yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio ar lefel y DU gyfan i ddatblygu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu adnoddau gofal critigol rhag ofn y bydd amgylchiadau eithafol yn codi lle bydd y gwasanaeth yn gorlenwi.

7.6 Bydd y gwaith hwn yn gwella eglurder, cysondeb a pharodrwydd ar gyfer y sefyllfaoedd mwyaf eithafol. Bydd y ffocws yn parhau ar atal gwasanaethau rhag gorlenwi drwy brosesau cynllunio effeithiol, camau uwchgyfeirio cynnar a gwasanaethau'n cefnogi ei gilydd pan fyddant dan bwysau.

# 8. Cofnodi a chyhoeddi marwolaethau gweithwyr gofal iechyd

**Argymhelliad 8: Cofnodi a chyhoeddi marwolaethau gweithwyr gofal iechyd yn systematig**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio gyda'u priod asiantaethau iechyd y cyhoedd a'u cyflogwyr gofal iechyd i ddatblygu systemau penodol i'r wlad ar gyfer casglu, dadansoddi a chyhoeddi data yn systematig ar farwolaethau gweithwyr gofal iechyd pe bai pandemig yn digwydd.

Dylai Awdurdod Ystadegau'r DU weithio gyda darparwyr data i sicrhau bod modd cymharu'r data ar draws pedair gwlad y DU.

8.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad y dylai fod ffordd glir o gofnodi, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am farwolaethau gweithwyr gofal iechyd pe bai pandemig yn y dyfodol. Byddai hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pandemig wedi effeithio ar y gweithlu. Byddai hefyd yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gymryd camau i amddiffyn staff a bod yn agored gyda'r cyhoedd.

8.2 Yn ystod pandemig Covid-19, daeth gwybodaeth am farwolaethau gweithwyr gofal iechyd o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y ffynonellau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig, ond fe'u cynlluniwyd at ddibenion gwahanol ac roedd gan bob un ohonynt gyfyngiadau. Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael yn gyflym ond nid oedd yn gyflawn. Roedd gwybodaeth arall yn fwy dibynadwy ar gyfer gwaith dadansoddi diweddarach ond nid oedd ar gael yn ddigon cyflym i gefnogi penderfyniadau brys.

8.3 Barn Llywodraeth Cymru yw nad yw unrhyw ffynhonnell ddata sy'n bodoli eisoes yn debygol o ddiwallu holl anghenion yr argymhelliad hwn. Yn ystod pandemig, mae'n bosibl y bydd angen data yn gyflym i helpu i amddiffyn staff a chefnogi gwaith cynllunio gweithredol a phrosesau gwneud penderfyniadau brys. Dros amser, mae'n bosibl y bydd angen dadansoddiad mwy manwl i ddeall patrymau yn ôl rôl, lleoliad, ardaloedd a grwpiau poblogaeth. Mae hyn yn golygu y gall fod angen i Gymru ddefnyddio mwy nag un ffynhonnell wybodaeth.

8.4 Mae materion ymarferol a moesegol sylweddol i'w datrys. Byddai angen i unrhyw ddull gweithredu fod yn gywir, yn amserol, ac yn glir ynghylch pwy y mae'n ei gynnwys. Dylai ystyried gweithwyr gofal iechyd y tu allan i rolau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG, gan gynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a darparwyr annibynnol lle y bo'n berthnasol. Byddai hefyd angen iddo osgoi awgrymu bod marwolaeth wedi'i hachosi gan gysylltiad galwedigaethol lle na ellir cadarnhau hynny. Byddai angen trin unrhyw wybodaeth a gyhoeddir yn sensitif, gan ei rhoi o fewn ei chyd-destun priodol, a chydnabod yr effaith ar deuluoedd, cydweithwyr a'r gweithlu ehangach.

8.5 Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull cymesur, fesul cam, o weithredu. Bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y llywodraethau datganoledig eraill, Awdurdod Ystadegau'r DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y GIG yng Nghymru a chyflogwyr perthnasol i nodi'r dull mwyaf priodol i Gymru ac i gefnogi'r gallu i gymharu ledled y DU cyn belled ag y bo modd.

8.6 Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnwys galwedigaethau mewn dadansoddiadau o farwolaethau ar gyfer Cymru fel mater o drefn yn ystod pandemig yn y dyfodol, lle mae ansawdd y data yn caniatáu hynny. Bydd hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth o effeithiau ar weithwyr gofal iechyd a grwpiau galwedigaethol eraill.

8.7 Bydd angen i'r gwaith paratoadol hefyd ystyried y trefniadau cyfreithiol, y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r trefniadau gweithredol a fyddai'n caniatáu i unrhyw system gael ei rhoi ar waith yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a fyddai angen pwerau neu hysbysiadau rhannu data, sut y byddai ansawdd data yn cael ei sicrhau, a sut y byddai allbynnau'n cael eu cyfleu mewn ffordd glir a chyfrifol. Nid dim ond creu cyhoeddiad yw'r nod, ond sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar ffurf a all gefnogi penderfyniadau, diogelu'r gweithlu a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

# 9. Proses safonedig ar gyfer cynllunio gofal ymlaen llaw ledled y DU

**Argymhelliad 9: Proses safonedig ar gyfer cynllunio gofal ymlaen llaw ledled y DU**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan weithio gydag ymddiriedolaethau a byrddau iechyd, sefydlu a hyrwyddo un broses safonedig ledled y DU (megis ReSPECT, sef y Cynllun Cryno a Argymhellir ar gyfer Gofal a Thriniaeth Frys) i glinigwyr ganfod a chofnodi dymuniadau a dewisiadau eu cleifion ar gyfer gofal a thriniaeth yn y dyfodol er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u teilwra at yr unigolyn, gan gynnwys hysbysiadau Peidio â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR).

9.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r angen i wella prosesau cynllunio gofal ymlaen llaw. Dylid cefnogi pobl i gael sgyrsiau clir ac ystyrlon am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Dylai'r sgyrsiau hyn helpu clinigwyr i wneud penderfyniadau gyda chleifion a theuluoedd.

9.2 Gall cynllunio gofal ymlaen llaw gynnwys penderfyniadau ynghylch a ddylid rhoi cynnig ar adfywio cardiopwlmonaidd, a elwir yn aml yn CPR, os bydd calon unigolyn yn stopio neu os bydd yn stopio anadlu. Mae penderfyniad Peidio â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd, a elwir yn DNACPR, yn benderfyniad clinigol difrifol. Rhaid ei wneud yn briodol, ei drafod yn sensitif, a'i gofnodi'n glir.

9.3 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i amddiffyn hawliau pobl, a sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn briodol, ac osgoi defnydd amhriodol o benderfyniadau Peidio â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR).

9.4 Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad o gyflwyno un broses safonedig ledled y DU ar hyn o bryd. Mae dulliau gwahanol eisoes ar waith ar draws y pedair gwlad, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn cyfraith, polisi, gwasanaethau iechyd ac ymarfer cyfredol.

9.5 Mae gan Gymru drefniadau sefydledig eisoes ar gyfer cynllunio gofal ymlaen llaw ac yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai cyflwyno un model ar gyfer y DU gyfan amharu ar y trefniadau hynny a chreu dryswch i gleifion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cryfhau'r dull sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

9.6 Yng Nghymru, cefnogir gwaith cynllunio gofal ymlaen llaw drwy'r *Fframwaith Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol*, sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar draws y GIG yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn cefnogi trafodaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chamau igofnodi dewisiadau'n glir. Fe'i cynlluniwyd i adlewyrchu gofynion cyfreithiol Cymru a chefnogi penderfyniadau a wneir ar y cyd rhwng clinigwyr, cleifion a theuluoedd.

9.7 Nid oedd yr heriau yn ystod y pandemig oherwydd diffyg ffurflen safonedig yn unig. Roeddent hefyd yn ymwneud â sut roedd sgyrsiau'n cael eu cynnal, hyder staff wrth gael y sgyrsiau hynny, a sut roedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi, ei rhannu a'i chyrchu ar draws lleoliadau gofal gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod mynd i'r afael â'r heriau hyn — yn enwedig drwy hyfforddiant, cymorth ac arweiniad gwell i staff, yn hanfodol i wella profiad a chanlyniadau cleifion ac mae'n debygol o gael mwy o effaith na newid i system gyflawni arall.

9.8 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod manteision i sicrhau mwy o gysondeb ledled y DU. Rydym felly'n agored i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i nodi meysydd penodol lle gallai dull pedair gwlad ychwanegu gwerth. Gall hyn gynnwys egwyddorion cyffredin, enghreifftiau o arferion gorau, datblygu'r gweithlu, a ffyrdd gwell o rannu gwybodaeth pan fydd pobl yn cael gofal mewn mwy nag un rhan o'r DU.

9.9 Yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar ein fframwaith presennol ar gyfer Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a chryfhau canllawiau, hyfforddiant a deunyddiau ategol. Bydd hefyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i wella sut mae gwybodaeth cynllunio gofal ymlaen llaw yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n ddiogel ar draws lleoliadau.

9.10 Dull gweithredu Llywodraeth Cymru yw cryfhau a gwella systemau presennol yng Nghymru, gan ar yr un pryd gydweithio ledled y DU i hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin a gwelliant parhaus, yn hytrach na chyflwyno un broses unffurf.

# 10. Cymorth seicolegol ac emosiynol i weithwyr gofal iechyd

**Argymhelliad 10: Cymorth seicolegol ac emosiynol i weithwyr gofal iechyd**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan weithio gyda chyflogwyr gofal iechyd a chyrff proffesiynol, roi cynlluniau ar waith i ddarparu cymorth effeithiol i weithwyr gofal iechyd ar raddfa eang o ddechrau pandemig. Dylai cynlluniau gwmpasu natur a lefel y cymorth a ddarperir yn ystod ac ar ôl pandemig.

Dylai'r pedair llywodraeth ddatblygu rhaglen o ymweliadau cymorth gan gymheiriaid y gellir, o ddechrau pandemig, ei thargedu at rannau o ysbytai acíwt sydd dan straen sylweddol. Dylid sicrhau mai diben yr ymweliadau yw cefnogi staff rheng flaen, casglu gwybodaeth am y pwysau y mae gweithwyr gofal iechyd yn eu hwynebu a deall pa gymorth pellach y gallai fod ei angen arnynt.

10.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gall gweithwyr gofal iechyd gael gafael ar gymorth seicolegol ac emosiynol effeithiol yn ystod ac ar ôl pandemig. Mae cefnogi llesiant a diogelwch seicolegol staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae gwaith presennol yng Nghymru yn darparu sylfaen gref sy'n gydnaws â bwriad yr argymhelliad hwn.

10.2 Mae gan Gymru wasanaethau a chanllawiau ar waith eisoes i gefnogi staff. Yn ystod pandemig Covid-19, cyflwynodd Cymru ystod o gymorth ar gyfer llesiant staff, gan gynnwys llinell gymorth llesiant gyfrinachol a phwrpasol ar gyfer staff y GIG, gweithwyr gofal cymdeithasol a gwirfoddolwyr ar y rheng flaen. Dangosodd y model hwn bwysigrwydd sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar gymorth, ei fod yn gyfrinachol a'i fod ar gael yn gyflym pan fydd pwysau ar wasanaethau'n cynyddu.

10.3 Datblygodd Cymru adnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu hefyd mewn partneriaeth â chyflogwyr ac undebau llafur. Gwnaeth yr adnodd hwn helpu staff a sefydliadau i ystyried a yw person o bosibl yn wynebu risg uwch o salwch difrifol oherwydd Covid-19. Yn ogystal ag ystyried canllawiau, ymchwil a thystiolaeth y llywodraeth, roedd yr adnodd asesu risg yn ystyried ffactorau fel oedran, rhyw, ethnigrwydd, cyflyrau iechyd a Mynegai Màs y Corff. Gellid addasu dull tebyg ar gyfer pandemig yn y dyfodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf am y clefyd dan sylw.

10.4 Ers y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gryfhau ei dull o ymdrin â llesiant y gweithlu. Mae'r *Fframwaith Iechyd a Llesiant (Canllaw Arfer Gorau ar gyfer GIG Cymru)* gan *Addysg a Gwella Iechyd Cymru* yn nodi beth y dylai sefydliadau'r GIG yng Nghymru ei wneud i gefnogi staff yn gyson ledled Cymru.

10.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru esbonio sut mae wedi adolygu'r cymorth llesiant sydd ar gael i staff. Mae hyn yn cynnwys pa effaith y mae'r cymorth wedi'i chael, enghreifftiau o arferion da, meysydd lle gellid gwella cymorth, a pha gamau pellach sy'n cael eu cymryd.

10.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ffyrdd o gynyddu'r cymorth sydd ar gael yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau y gall staff gael gafael ar gymorth o ddechrau argyfwng iechyd y cyhoedd a pharhau i gael cymorth yn ystod y cyfnod adfer.

10.7 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddysgu o ganfyddiadau ymweliadau arsylwadol yr Athro Kevin Fong â lleoliadau Gofal Critigol. Mae ei ganfyddiadau'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar y pwysau a wynebwyd gan staff rheng flaen a'r math o gymorth yr oedd ei angen arnynt ar y pryd.

# Tabl Camau Gweithredu

| Cam Gweithredu | Erbyn Pryd |
|---|---|
| **Argymhelliad 1** | |
| Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gwblhau dadansoddiad o'r bylchau yn erbyn y Datganiad Ansawdd ar Atal a Rheoli Heintiau. | Hydref 2026 |
| Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i ddangos eu bod wedi rhoi'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ar waith ynghyd â'r gofynion llywodraethu cysylltiedig. | Gaeaf 2026 |
| Sefydlu rolau Cyfarwyddwr Atal a Rheoli Heintiau a threfniadau adrodd gweithredol cysylltiedig ar draws pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. | Haf 2027 |
| Datblygu Fframwaith Sicrwydd Cymru Gyfan ar Atal a Rheoli Heintiau a'i roi ar waith. | Gaeaf 2026/27 |
| **Argymhelliad 2** | |
| Gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig i gytuno ar set o egwyddorion cenedlaethol i bob gwlad ei mabwysiadu a'i mireinio. | Hydref 2026 |
| Adolygu canllawiau presennol Cymru ar ymweliadau, nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgil eu rhoi ar waith yn ystod pandemig Covid-19 ac ers hynny a chroesawu egwyddorion wedi'u llunio ar y cyd gan y pedair gwlad. | Gaeaf 2026/27 |
| Darparu safbwynt wedi'i ddiweddaru ar egwyddorion a chanllawiau ar ymweliadau ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal, gan gynnwys trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio yn ystod pandemigau yn y dyfodol. | Gwanwyn 2027 |
| Ystyried gwersi o wledydd eraill y DU ac asesu a yw fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion yn cynnig digon o gysondeb, sicrwydd ac atebolrwydd, neu a ddylid archwilio opsiynau deddfwriaethol ymhellach fel cam nesaf. | Gaeaf 2027 |
| **Argymhelliad 3** | |
| Cwblhau a chymeradwyo’r Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Anadlol a’r cynllun gweithredu cysylltiedig. | Hydref 2026 |
| Sefydliadau’r GIG yng Nghymru i asesu’r gallu presennol i gynnal profion ffitio, gan gynnwys argaeledd swyddogion profion ffitio cymwysedig, gofynion y gweithlu, anghenion o ran cyfarpar a threfniadau caffael. | Gwanwyn 2027 |

| Cam Gweithredu | Erbyn Pryd |
|---|---|
| Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol i asesu'r gallu i gynnal profion ffitio, capasiti a mynediad at gyfarpar diogelu anadlol ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref. | Haf 2027 |
| Datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd o ran capasiti i gynnal profion ffitio ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys trefniadau cyd-gymorth, cydweithio rhanbarthol a threfniadau cymorth ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol lle y bo'n briodol. | Haf 2027 |
| Sicrhau bod trefniadau parodrwydd Cymru ar gyfer pandemig yn cynnwys y gallu i gynnal profion ffitio ychwanegol ar draws y GIG yng Nghymru, lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys trefniadau cymorth rhanbarthol lle y bo'n briodol. | Gwanwyn 2027 |
| Sicrhau bod mynediad at ystod briodol o gyfarpar diogelu anadlol sy'n gallu diwallu anghenion gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. | Hydref 2027 |
| Archwilio opsiynau ar gyfer cadw cofnod digidol o statws profion ffitio a gofynion FFP3 cysylltiedig i wella symudedd y gweithlu, prosesau lleoli, rheoli cofnodion a chynllunio caffael ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, lle y bo'n ymarferol. | Hydref 2027 |
| **Argymhelliad 4** | |
| Sefydlu cymuned ymarfer i gefnogi defnydd cyson o safonau data, rhannu arferion gorau a gwella'r ffordd y mae systemau'n cysylltu ar draws y GIG yng Nghymru. | I’w gadarnhau |
| Datblygu llyfrgell safonau a rennir i roi canllawiau ac adnoddau clir i dimau er mwyn cymhwyso safonau data yn gyson ar draws y system. | I’w gadarnhau |
| Datblygu Pensaernïaeth Darged Genedlaethol. | I'w gadarnhau |
| Rhoi'r Rhaglen Ddigidol Diogelu Iechyd ar waith. | Tachwedd 2027 |
| **Argymhelliad 5** | |
| Datblygu templedi sicrwydd cenedlaethol mewn perthynas â pharodrwydd ar gyfer y gaeaf. | Mehefin 2026 |
| Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gaeaf. | Gorffennaf – Awst 2026 |

| Cam Gweithredu | Erbyn Pryd |
|---|---|
| Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i brofi cynlluniau yn erbyn y ddwy senario o ran galw:<br>• Senario 1: Y galw mwyaf tebygol<br>• Senario 2: Pwysau eithafol ac ymchwydd. | Medi 2026 |
| Cyflwyno cynlluniau a thempledi sicrwydd terfynol y GIG yng Nghymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd. | Medi 2026 |
| Perfformiad a Gwella GIG Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i fonitro'r gwaith o gyflwyno cynlluniau'r gaeaf. | Hydref 2026 — Mawrth 2027 |
| Ôl-drafodaeth a gwersi a ddysgwyd. | Mai 2027 |
| Diwygio'r dull gweithredu ar gyfer gaeaf 2027/28. | Mehefin 2027 |
| **Argymhelliad 6** | |
| Datblygu cynlluniau ymchwydd gofal critigol y gaeaf ar gyfer 2026/27. | Medi 2026 |
| Datblygu canllawiau cyffredinol ar Gynllunio ar gyfer Capasiti Ymchwydd. | Hydref 2026 |
| Datblygu canllawiau ar gynnal gwasanaethau hanfodol. | Mawrth 2027 |
| Byrddau Iechyd i ddatblygu cynlluniau capasiti ymchwydd ysbytai sy'n ymdrin â phob bygythiad. | Mehefin 2027 |
| Asesu capasiti i ymdrin â Chlefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol a nodi opsiynau ymchwydd. | Mehefin 2027 |
| **Argymhelliad 7** | |
| Cysoni diffiniadau 'CRITCON', diweddaru iaith canllawiau ymchwydd a threfniadau adrodd. | Medi 2026 |
| Cydweithio ar sail y DU gyfan i ddatblygu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu adnoddau gofal critigol rhag ofn y bydd y gwasanaeth yn cael ei lethu o dan amgylchiadau eithafol. | I'w gadarnhau |
| Profi'r fframwaith drafft gyda sefydliadau'r GIG yng Nghymru. | I'w gadarnhau |
| Cytuno ar fframwaith terfynol ar gyfer y DU gyfan a diwygio'r canllawiau ymchwydd yn unol â hynny. | I'w gadarnhau |
| Rhannu’r canllawiau diwygiedig sy’n adlewyrchu’r fframwaith newydd, gyda chymorth tîm Perfformiad a Gwella’r GIG. | I’w gadarnhau |

| Cam Gweithredu | Erbyn Pryd |
|---|---|
| **Argymhelliad 8** | |
| Gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnwys galwedigaethau mewn dadansoddiadau o farwolaethau ar gyfer Cymru fel mater o drefn yn ystod pandemig yn y dyfodol. | Medi 2026 |
| Sicrhau cytundeb ledled y DU gyfan o ran yr achosion defnydd blaenoriaeth ar gyfer data ar farwolaethau gweithwyr gofal iechyd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatrysiad yn bodloni'r diben gofynnol. | Medi 2026 |
| Gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio hyfywedd prosesau cysylltu data gweithlu Adnoddau Dynol y GIG yng Nghymru â chofrestriadau marwolaethau — pennu'r cwmpas ar gyfer gofynion llywodraethu data. | Gorffennaf 2027 |
| Gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio hyfywedd prosesau cysylltu data gweithlu Adnoddau Dynol y GIG yng Nghymru â chofrestriadau marwolaethau — deall y datrysiad technegol. | Gorffennaf 2027 |
| Gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio hyfywedd prosesau cysylltu data gweithlu Adnoddau Dynol y GIG yng Nghymru â chofrestriadau marwolaethau — nodi bylchau yn y datrysiad. | I'w gadarnhau |
| Sefydlu cynlluniau gwyliadwriaeth gyflym o dan Fframwaith Gwyliadwriaeth Mosäig Pandemig Cymru sy'n cynnwys cofnodi galwedigaeth. | 31 Mawrth 2027 |
| Sicrhau bod seilwaith gwyliadwriaeth gyflym ar waith i gofnodi data galwedigaeth. | I'w gadarnhau |
| **Argymhelliad 9** | |
| Adolygu (bob dwy flynedd), archwilio a chryfhau canllawiau, hyfforddiant a deunyddiau ategol. | Hydref 2026 |
| **Argymhelliad 10** | |
| Dechrau gwerthusiad o gymorth llesiant lleol gyda sefydliadau'r GIG. | Gorffennaf 2026 |
| Casglu ac adolygu ymatebion gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru i nodi themâu cyffredin, effaith, arferion da, meysydd i'w gwella, a chamau gweithredu arfaethedig i gryfhau cymorth llesiant. | Medi 2026 |
| Adolygu'r canfyddiadau o ymweliadau arsylwadol yr Athro Kevin Fong â gwasanaethau Gofal Critigol a'u defnyddio i lywio dealltwriaeth o brofiad rheng flaen a phwysau ar systemau yn ystod y pandemig. | Ebrill 2027 |

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55168, ISBN digidol 978-1-80853-309-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg